OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 No. 1182

# Gorchymyn Draenio Cynaliadwy (Gorfodi) (Cymru) 2018

## RHAN 2

### Arfer swyddogaethau gorfodi

**Cytundeb i arfer swyddogaethau gorfodi**

**3.**—(1) Caiff corff cymeradwyo(**1**) gytuno â'r awdurdod cynllunio lleol ("yr Awdurdod") y caiff yr Awdurdod arfer swyddogaeth orfodi o dan y Gorchymyn hwn fel pe bai'r awdurdod oedd y corff cymeradwyo.

(2) Caiff y cytundeb—

(a) ymwneud ag unrhyw doriad o'r gofyniad i gael cymeradwyaeth, a

(b) cynnwys trefniadau i ad-dalu'r costau yr aed iddynt gan yr Awdurdod wrth arfer y swyddogaeth orfodi.

(3) Yn yr erthygl hon, ystyr "swyddogaeth orfodi" yw unrhyw swyddogaeth sy'n arferadwy gan y corff cymeradwyo mewn perthynas ag—

(a) pwerau mynediad;

(b) hysbysiad stop dros dro, hysbysiad gorfodi neu hysbysiad stop.

**Pwerau mynediad**

**4.**—(1) Caiff person awdurdodedig ar unrhyw adeg resymol fynd i ardal adeiladu (ac eithrio unrhyw fangre yn yr ardal adeiladu a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf fel tŷ annedd preifat) i ganfod—

(a) a dorrwyd y gofyniad i gael cymeradwyaeth, neu

(b) a chydymffurfiwyd â hysbysiad stop dros dro, hysbysiad stop neu hysbysiad gorfodi.

(2) Mae paragraff (1) yn ddarostyngedig i baragraff (4).

(3) Rhaid i'r person awdurdodedig, ar gais, ddangos tystiolaeth o awdurdodiad.

(4) Mewn argyfwng, caniateir arfer pwerau mynediad ar unrhyw adeg.

(5) Ni chaiff person awdurdodedig arfer pwerau mynediad i ganfod a dorrwyd y gofyniad i gael cymeradwyaeth os yw system ddraenio ar gyfer y gwaith adeiladu wedi ei mabwysiadu.

(6) Caiff ynad heddwch, drwy warant wedi ei llofnodi, ganiatáu i berson awdurdodedig fynd i unrhyw fangre mewn ardal adeiladu, a hynny gan ddefnyddio grym rhesymol os oes angen, os yw'r ynad wedi ei fodloni ar sail gwybodaeth ysgrifenedig a roddir ar lw—

(a) bod sail resymol dros fynd i'r fangre at ddibenion paragraff (1) o'r erthygl hon, a

(b) bod unrhyw un o'r amodau ym mharagraff (7) wedi ei fodloni.

(7) Yr amodau yw—

(**1**) Diffinnir "approving body" ym mharagraff 6 o Atodlen 3.

(a) bod mynediad i'r fangre wedi ei wrthod, neu'n debygol o gael ei wrthod, a bod hysbysiad o'r bwriad i wneud cais am warant wedi ei roi i'r meddiannydd;

(b) y byddai gofyn am gael mynediad i'r fangre, neu roi hysbysiad o'r fath, yn mynd yn groes i fwriad mynd i'r fangre;

(c) bod angen mynediad ar frys;

(d) bod y fangre heb ei meddiannu neu fod y meddiannydd yn absennol dros dro.

(8) Mae gwarant yn ddilys am 3 mis.

(9) Rhaid i berson awdurdodedig sy'n mynd i fangre nad yw wedi ei meddiannu, neu y mae ei meddiannydd yn absennol ohoni dros dro, ei gadael wedi ei diogelu yr un mor effeithiol rhag mynediad heb awdurdod ag yr ydoedd cyn iddo fynd iddi.

**Digolledjad am golled o ganlyniad i arfer pwerau mynediad**

**5.**—(1) Mae gan ddatblygwr neu berson arall hawlogaeth i ddigolledjad—

(a) os yw person awdurdodedig yn mynd i ardal adeiladu neu unrhyw fangre mewn ardal adeiladu drwy arfer pwerau mynediad ond nad yw'n dod o hyd i unrhyw dystiolaeth o dorri'r gofyniad i gael cymeradwyaeth, a

(b) os yw'r datblygwr neu berson arall yn cael colled o ganlyniad i arfer y pwerau hynny.

(2) Os yw person awdurdodedig yn mynd i ardal adeiladu neu unrhyw fangre mewn ardal adeiladu drwy arfer pwerau mynediad ac y canfyddir y torrwyd y gofyniad i gael cymeradwyaeth, mae digolledjad yn daladwy—

(a) i'r datblygwr am unrhyw golled o ganlyniad i arfer y pwerau hynny yn afresymol yn unig;

(b) i unrhyw berson arall fel pe bai dim tystiolaeth o doriad wedi ei ganfod.

(3) Rhaid gwneud unrhyw hawliad am ddigolledjad i'r corff cymeradwyo o fewn 12 mis ar ôl arfer y pwerau hynny.

(4) Mae anghydfodau ynghylch digolledjad i'w penderfynu gan yr Uwch Dribiwnlys.